

Cofnodion 18fed cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2026 yn Swyddfa Llywodraeth Cymru, Cyffordd Llandudno.

Yn bresennol:

Aelodau'r Bwrdd:

Yr Athro a'r Fonesig Julie Lydon (Cadeirydd)
James Owen (Prif Weithredwr)
Yr Athro David Sweeney (Dirprwy Gadeirydd)
Yr Athro Aaqil Ahmed
Jeff Greenidge
Stephen Marston
Yr Athro Chris Millward
Orla Tarn
Jayne Woods

Staff:

Dr Ewen Brierley (Cyfarwyddwr, Rheoleiddio) Teams Eitem 3
Harriet Barnes (Cyfarwyddwr, Ymchwil, Arloesi a Sgiliau)
Heather Davidson (Pennaeth Prentisiaethau) Teams Eitem 4
Rhian Edwards (Cyfarwyddwr Gweithredol, Polisi)
Bethan Evans (Cyfarwyddwr Gweithredol, Rheoleiddio a Chyllido)
Natalie Williams (Uwch-reolwr Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd)
Steven Williams (Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd a Chynllunio Corfforaethol)

Unigolion eraill a oedd yn bresennol:

Edmund Burke (Prifysgol Bangor) Eitem 1
Joe Yates (Prifysgol Wreccsam) Eitem 1
Caroline Street (Coleg Cambria) Eitem 1
Aled Jones-Griffith (Grŵp Llandrillo Menai) Eitem 1

Ymddiheuriadau:

Daniel Beard
Cerys Furlong
Dr Gwenllian Lansdown Davies
James Davies
Estelle Hart
Rob Humphreys
Fran Hill (Prif Swyddog Gweithredu)

1. Cyflwyniad gan Gynghrair Trydyddol Gogledd Cymru i'r Bwrdd ar gydweithio yng Ngogledd Cymru

- 1.1 Rhoddodd cynrychiolwyr Cynghrair Trydyddol Gogledd Cymru gyflwyniad i'r Bwrdd ar ddatblygiad y bartneriaeth yn ystod ei blwyddyn gyntaf o weithredu. Tynnodd y Cynghrair sylw at ei ffocws ar atgyfnerthu cydweithio rhwng sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch yn y Gogledd er mwyn cefnogi dysgwyr, gwaith datblygu sgiliau, darpariaeth Gymraeg a blaenoriaethau rhanbarthol.

- 1.2 Nododd y Bwrdd fod y Cynghrair wedi darparu fframwaith ar gyfer cydweithio gan alluogi sefydliadau i gadw eu hymreolaeth unigol. Cafwyd diweddariad ar weithgarwch i gefnogi gwaith datblygu sgiliau, cynllunio rhanbarthol ac ymgysylltu â phartneriaid ledled y Gogledd.
- 1.3 Croesawodd y Bwrdd y cynnydd roedd y Cynghrair wedi'i wneud, gan gydnabod ei gyfraniad at gefnogi addysg drydyddol, blaenoriaethau sgiliau rhanbarthol a chyfleoedd i ddysgwyr ledled y Gogledd. Diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr am eu cyflwyniad.

2. Sylwadau rhagarweiniol a datganiadau o fuddiant

- 2.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Bwrdd, staff ac arsylwyr i adran materion ffurfiol y cyfarfod. Nododd y Bwrdd ddiweddariad ynglŷn â rôl y dysgwr-aelod cyswllt a'r trefniadau a oedd yn mynd rhagddynt ar gyfer penodi.
- 2.2 Ni ddatganwyd dim buddiannau penodol mewn perthynas â'r eitemau ar yr agenda y tu hwnt i'r rhai a oedd eisoes wedi'u cyhoeddi ar wefan Medr. Datganodd Stephen Marston y byddai'n ymuno â Bwrdd Grŵp Prifysgol South Bank Llundain ac yn cadeirio ei bwyllgor colegau o 1 Awst 2026 ymlaen. Nododd y Bwrdd y datganiad.

3 Cymeradwyo Ceisiadau i Ymuno â'r Gofrestr Addysg Uwch

- 3.1 Ystyriodd y Bwrdd yr adroddiad ar geisiadau i ymuno â'r Gofrestr Addysg Uwch a chymeradwyodd yr argymhellion i gofrestru 13 o ddarparwyr ynghyd â'u Datganiadau Terfynau Ffioedd cysylltiedig.
- 3.2 Nododd y Bwrdd fod y broses asesu wedi cael ei chwblhau yn unol â'r Amodau Cofrestru Cychwynnol a bod yr holl faterion heb eu datrys a ganfuwyd yn ystod y broses asesu wedi cael sylw cyn y cyfarfod.
- 3.3 Trafododd y Bwrdd weithrediad y broses gofrestru gan nodi'r gwahaniaeth rhwng cofrestru cychwynnol a gwaith parhaus Medr i ymgysylltu â darparwyr at ddibenion monitro a rheoleiddio.
- 3.4 Nododd y Bwrdd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r Gofrestr a'r ohebiaeth gysylltiedig â darparwyr.

Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd yr argymhellion ynghylch cofrestru'r 13 o ddarparwyr, y Datganiadau Terfynau Ffioedd ar gyfer 2027/28 ac unrhyw gamau gweithredu cysylltiedig i'w cymryd. Y Prif Weithredwr i gwblhau'r llythyrau terfynol i ddarparwyr, gan ystyried awgrymiadau'r Bwrdd, a chwblhau'r broses o gyhoeddi'r Gofrestr.

Golygiad:

Cadwyd cynnwys manwl yn ôl gan fod bwriad i'r ddogfen gael ei chyhoeddi yn y dyfodol.

4. Y Rhaglen Brentisiaethau o fis Awst 2027 ymlaen

- 4.1 Ystyriodd y Bwrdd gynigion ar gyfer y rhaglen brentisiaethau newydd a fydd yn dechrau ym mis Awst 2027, a thrafododd gyfeiriad strategol y rhaglen. Nododd yr

aelodau y gwaith ymgysylltu a'r dystiolaeth helaeth a oedd wedi llywio'r broses o ddatblygu'r rhaglen hyd yma.

- 4.2 Ystyriodd y Bwrdd y dull gweithredu arfaethedig a chydabu bwysigrwydd sicrhau bod y rhaglen yn parhau i ymateb i anghenion polisi, dysgwyr a chyflogwyr wrth iddynt ddatblygu.

PENDERFYNIAD Gwnaeth y Bwrdd:

- **Gadarnhau bod y broses o ddatblygu'r rhaglen wedi bod yn gadarn ac wedi ymateb i dystiolaeth ac adborth gan randdeiliaid.**
- **Cytuno bod dyluniad y rhaglen brentisiaethau newydd yn cyd-fynd â nodau strategol Medr.**
- **Cymeradwyo'r broses a'r meini prawf amlinellol ar gyfer ceisiadau, asesiadau a phenderfyniadau dyfarnu grantiau'r rhaglen brentisiaethau newydd.**

Golygiad:

Cadwyd cynnwys manwl yn ôl oherwydd sensitifrwydd yn ymwneud â buddiannau masnachol a chan fod bwriad i'r ddogfen gael ei chyhoeddi yn y dyfodol.

5. Adroddiadau chwarterol: Ariannol, Cynllun Gweithredol a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol

- 5.1 Cyflwynwyd yr adroddiad chwarterol ar gynllunio gweithredol, risg gorfforaethol a pherfformiad ariannol i'r Bwrdd.
- 5.2 Trafododd y Bwrdd ddatblygiad adroddiadau perfformiad y sefydliad a phwysigrwydd cynnig trosolwg clir o gyflawni, risg a chynaliadwyedd ariannol.

NODWYD: Nododd y Bwrdd yr adroddiad chwarterol ar gynllunio gweithredol, risg gorfforaethol a pherfformiad ariannol.

Golygiad:

Cadwyd cynnwys manwl yn ôl oherwydd sensitifrwydd yn ymwneud â buddiannau masnachol a gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol.

6. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2026

- 6.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2026.

7. Materion sy'n codi a chamau gweithredu

- 7.1 Adolygodd y Bwrdd y log camau gweithredu a chytunodd ar y camau gweithredu yr awgrymir y dylid eu cau.

8. Adroddiad y Cadeirydd

- 8.1 Cyflwynwyd adroddiad y Cadeirydd i'r Bwrdd, a nodwyd y gweithgarwch parhaus i ymgysylltu ag arweinwyr a rhanddeiliaid y sector. Cydnabuwyd pwysigrwydd cynnal cydberthnasau cadarn â phob rhan o'r sector addysg drydyddol.

Golygiad:

Cadwyd cynnwys manwl yn ôl oherwydd gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol.

9. Diweddariad gan Gadeiryddion Pwyllgorau

- 9.1 Cyflwynwyd diweddariadau i'r Bwrdd gan Gadeiryddion ei bwyllgorau a grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig, a chawsant eu nodi.
- 9.2 Adroddodd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant ar ddiwylliant y sefydliad, materion yn ymwneud â'r gweithlu a gweithgareddau datblygu arweinyddiaeth.
- 9.3 Cafwyd diweddariad gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gyllid ynghylch y rhaglen adolygu cyllid a gwaith yn y dyfodol er mwyn helpu i ddatblygu dulliau buddsoddi ym mhob rhan o'r sector addysg drydyddol.

CAM GWEITHREDU: Byddai'r Bwrdd yn cael diweddariad pellach ar y rhaglen adolygu cyllid mewn cyfarfod yn y dyfodol.

- 9.4 Rhoddodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ddiweddariad ar faterion yn ymwneud ag adroddiadau ariannol, llywodraethu, goruchwyliaeth reoleiddiol a rheoli risg.
- 9.5 Roedd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi wedi trafod datblygiadau ym maes polisi ymchwil ac arloesi a materion yn ymwneud â chyllid.
- 9.6 Adroddodd y Pwyllgor Ansawdd ar faterion yn ymwneud â sicrhau ansawdd ac ymgysylltu â phob rhan o'r sector addysg drydyddol. Roedd gwaith hefyd yn mynd rhagddo i egluro dull Medr o ymdrin â chweched dosbarth ysgolion ac ymgysylltu ag awdurdodau lleol.

CAM GWEITHREDU: Byddai cyfarfod yn cael ei drefnu yn y dyfodol er mwyn briffio'r Bwrdd ynghylch darpariaeth chweched dosbarth a pherthynas ehangach Medr ag awdurdodau lleol.

Golygiad:

Cadwyd cynnwys manwl yn ôl lle roedd yn ymwneud â materion masnachol sensitif neu wybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol.

10. Adroddiad y Prif Weithredwr

- 10.1 Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd ar weithgarwch ym maes materion cyhoeddus, ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a'r Senedd, a datblygiadau polisi newydd sy'n effeithio ar y sector addysg drydyddol.
- 10.2 Nododd y Bwrdd yr ymgysylltu parhaus â Llywodraeth Cymru, partneriaid yn y sector a rhanddeiliaid er mwyn helpu i ddatblygu polisiâu a deall heriau a chyfleoedd a oedd yn dod i'r amlwg ym mhob rhan o'r sector.
- 10.3 Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd ar bwysau o ran cyfranogiad ym maes addysg bellach a'r goblygiadau posibl i ddysgwyr, darparwyr a gofynion cyllid yn y dyfodol. Nodwyd bod Medr yn parhau i weithio gyda'r sector er mwyn monitro'r galw gan ddysgwyr a thueddiadau cofrestru.
- 10.4 Rhoddwyd diweddariad cyfrinachol i'r Bwrdd ar faterion rheoleiddiol penodol.

Cam gweithredu: Byddai'r Bwrdd yn cael diweddariad pellach ar gyfranogiad dysgwyr a thueddiadau cofrestru mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Golygiad:

Cadwyd cynnwys manwl yn ôl dan esemptiadau sy'n ymwneud â chynnal materion cyhoeddus yn effeithiol a gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol.

11. Unrhyw fater arall

11.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

12. Dyddiad y cyfarfod nesaf

12.1 Cyfarfod Bwrdd – 24 Medi 2026.

Papurau a gyflwynwyd er gwybodaeth:

- 13. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Pobl a Diwylliant a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2026**
- 14. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Ansawdd a gynhaliwyd ar 20 Ebrill 2026**
- 15. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Ansawdd a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2026**